# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 06 Tachwedd 2023

## SL(6)394 – Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2023

### Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) 1993 ("Rheoliadau 1993").

Mae Rheoliadau 1993 yn nodi o dan ba amgylchiadau y gellir newid rhestr brisio. Mae rheoliad 14 o'r Rheoliadau hynny yn pennu'r diwrnod y mae newid yn cael effaith ohono.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r diwrnod y mae newid yn cael effaith ohono pan fydd y rhestr yn cael ei newid oherwydd cynnydd materol yng ngwerth eiddo, a phan ddylid trin annedd fel dwy annedd neu ragor yn unol â Gorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Taladwy) 1992. O dan y ddau amgylchiad mae'r Rheoliadau hyn yn pennu'r diwrnod fel y diwrnod y cofnodir y newid yn y rhestr.

Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau hyn, ym mharagraff 4.1, yn nodi bod y diwygiadau hyn:

> "*...amddiffyn trethdalwyr rhag ôl-ddyledion treth gyngor sy'n deillio o oedi gweinyddol yn y broses o newid bandiau prisio*".

**Rhiant-Ddeddf:** Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) 1993

**Fe'u gwnaed ar:** 11 Hydref 2023

**Fe'u gosodwyd ar:** 13 Hydref 2023

**Yn dod i rym ar:** 08 Tachwedd 2023

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 06 Tachwedd 2023

## SL(6)400 – Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 a Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015 (Diwygio) 2023

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud nifer o ddiwygiadau i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 a Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015, yn benodol:

(i) diwygio Atodlen 2 i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 drwy ychwanegu "llety digartrefedd dros dro y sector preifat" (a ddiffinnir yn y Rheoliadau hyn) at y rhestr o denantiaethau a thrwyddedau na fyddant byth yn cael troi'n gontractau meddiannaeth;

(ii) diwygio'r diffiniad o "llety Gwely a Brecwast" yn erthygl 2 o Orchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015.

Yr effaith y bwriedir i'r ddeddfwriaeth ei chael yw sicrhau bod pobl sy'n ddigartref ac y mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i ddarparu cymorth a llety iddynt, yn parhau i gael eu lletya mewn llety gwely a brecwast heb i gontract meddiannaeth godi.

**Rhiant-Ddeddf:** Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

**Fe'u gwnaed ar:**

**Fe'u gosodwyd ar:**

**Yn dod i rym ar:** 30 Tachwedd 202